# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Trwy Teams**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 30 Gorffennaf 2020**

Amser y Cyfarfod
**2.00 pm**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

To receive apologies for absence.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Chwefror a 5 Mawrth 2020 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 1 - 90)

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | GWELEDIGAETH 2025: EIN CYNLLLUN GWELLA CORFFORAETHOL ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019-2020 A CHYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2019-2020 |
|---|---|

Ystyried Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019-2020 a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-2020.

**Cynllun Gwella Corfforaethol Adroddiad Perfformiad Blynyddol**
Adroddiad llawn a chrynodeb un tudalen wedi'l atodi.

Gellir gweld y fersiynau hawdd i'w darllen ar y dolenni isod
SWAY Cymraeg: https://sway.office.com/HTKfNSnmhCitVzcC?ref=Link
SWAY Saesneg: https://sway.office.com/g6SVxXovHt8MQRHq?ref=Link

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Monitro Blynyddol**
SWAY Cymraeg: https://sway.office.com/QfWhJFfA0LT5wLzH?ref=Link
SWAY Saesneg: https://sway.office.com/qUnDl41pRiFXSnOY?ref=Link

(Tudalennau 91 - 162)

| 8. | ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2019-2020 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander Aelod Portffolio ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Iaith Gymraeg.
(Tudalennau 163 - 224)

| 9. | TROSGLWYDDIADAU |
|---|---|

Ystyried unrhyw drosglwyddiadau sydd angen eu cymderadwyo gan y Cyngor.
(I Ddilyn)

| 10. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2019-20 |
|---|---|

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.
(Tudalennau 225 - 232)

| 11. | CYFLOGAU, LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2020-21 |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid.

(Tudalennau 233 - 274)

| 12. | ARGYMHELLIAD GAN Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
(Tudalennau 275 - 284)

| 13. | PENODIADAU A WNAED GAN GRWPIAU GWLEIDYDDOL A CHYMERADWYWYD GAN Y SWYDDOG MONITRO |
|---|---|

Nodi’r penodiadau canlynol a wnaed i bwyllgorau a chyrff allanol gan grwpiau gwleidyddol a chymeradwywyd gan y Swyddog Monitro o dan bwerau cyffredinol dirprwyedig gan y Cyngor ar 16 Mai 2013.

Penodwyd y Cynghorydd Sir James Evans i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan y Grwp Ceidwadol yn lle’r Cynghorydd Sir Iain McIntosh.

Penodwyd y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas i’r Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Grwp Ceidwadol yn lle’r Cynghorydd Sir Claire Mills.

| 14. | OL TREFNIADAU Y BWRDD GWELLA A SICRWYDD |
|---|---|

Derbyn adroddiad y Cabinet ar Ol-Argymhellion y Bwrdd Gwella a Sicrwydd, er gwybodaeth.
(Tudalennau 285 - 304)

| 15. | RHYBUDD O GYNNIG: DATGANIAD AM ARGYFWNG HINSAWDD A GALWAD I WEITHREDU AR YNNI LLEOL |
|---|---|

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod adroddiad y Panel IPPC ar gynhesu byd-eang yn rhagweld effeithiau difrifol ar iechyd, y cartref a'r amgylchedd, gyda'r llifogydd difrifol ym mis Hydref 2019 a Chwefror 2020 yn peryglu cymunedau Powys, gan ddangos yn glir nad ydym yn barod am yr heriau a wynebwn fel Cyngor.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod cynghorau, drwy ddatgan argyfwng hinsawdd, yn dangos eu harweinyddiaeth ar y cyd ac yn arwydd o’r brys y maen nhw’n eu rhoi, fel corff atebol cyhoeddus, ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio'r economi fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi y bydd y Cyngor, drwy gefnogi'r Bil Trydan Lleol, yn dileu'r rhwystrau i gyflenwad ynni lleol, ac y gallai arwain drwy esiampl wrth leihau ei ôl troed carbon corfforaethol drwy ddefnyddio ein hystâd fferm i fod yn ddarparwr trydan adnewyddadwy lleol, tra'n cefnogi cymunedau i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o leihau eu hôl troed carbon a buddsoddi mewn cyfleusterau cymunedol a'u cefnogi.

Mae’r Cyngor hwn yn nodi ymrwymiad Fay Jones AS i'r ymdrech drawsbleidiol i droi’r Bil Trydan Lleol yn gyfraith, gan helpu Cynghorau i roi hwb cychwynnol i chwyldro ynni lleol sydd â'r potensial i leihau ôl troed carbon Powys unwaith ac am byth tra'n dosbarthu'r manteision i gymunedau lleol yn barhaus.

**Mae'r Cyngor hwn felly yn penderfynu:**

1. Ymuno â chynghorau eraill ledled Cymru wrth ddatgan Argyfwng Hinsawdd

2. Cefnogi'r broses o weithredu Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) er mwyn sicrhau bod Cyngor Sir Powys yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Jake Berriman

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Jackie Charlton

| 16. | RHYBUDD O GYNNIG: TALIADAU MEYSYDD PARCIO |
|---|---|

Er mwyn cefnogi busnesau lleol a helpu i adfywio'r economi ym Mhowys, mae'r cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet ystyried rhoi ar waith cyfnod parcio am ddim cychwynnol o 2 awr ar gyfer pob cerbyd sy’n defnyddio holl feysydd parcio Cyngor Sir Powys, i'w adolygu bob 6 mis.

Mae'r Cyngor hefyd yn annog Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio ar faterion Cyllid i ofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (drwy'r cynlluniau a ariennir gan y Llywodraeth sy'n dod i'r amlwg i gefnogi'r economi yn dilyn Covid-19) ar gyfer unrhyw incwm a gollir o ganlyniad i'r mesur hwn. Os na fydd hyn yn llwyddiannus i gefnogi’r defnydd o arian wrth gefn o'r tanwariant yn ystod blwyddyn gyllideb 2019/20 i gefnogi unrhyw ddiffyg.

Cynigydd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt

Eilydd y Cynghorydd Sir William Powell

| 17. | RHYBUDD O GYNNIG: EFFAITH COVID-19 AR YSTRADGYNLAIS |
|---|---|

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd y Ganolfan Trefi ei hadroddiad, 'effaith pandemig COVID-19 ar ein trefi a'n dinasoedd". Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar 'ble' mae effaith COVID-19 yn fwyaf tebygol o gael ei theimlo.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod Ystradgynlais wedi ei dynodi fel un o'r ugain lle mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Lloegr yn ôl mesurau y Ganolfan ar gyfer Trefi.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu sefydlu grŵp 'Gorchwyl a Gorffen' brys gydag Aelodau, Swyddogion a rhanddeiliaid i:

1. Ystyried canfyddiadau adroddiad Canolfan Trefi;
2. Datblygu strategaeth economaidd ar gyfer Ystradgynlais sy'n canolbwyntio ar adferiad, cefnogaeth i fusnesau a sgiliau; a

3. Rhoi cynlluniau clir a mesuradwy ar waith i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldebau iechyd.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Huw Williams
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Sue McNicholas

| 18. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD |
|---|---|

18.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion Llywodraethu ac Ymgysylltu Corfforaethol a'r Aelod Portffolio ar faterion Pobl Ifanc a Diwylliant gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Beth mae Cyngor Sir Powys yn ei wneud i gydnabod ymgyrch 'Mae Bywydau Duon o Bwys'?
(Tudalennau 305 - 306)

18.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar fateiron Addysg ac Eiddo gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

Rhoddodd y Gweinidog dros Addysg, Kirsty Williams y dewis i Awdurdodau Lleol bod staff ysgol yn gweithio pedwerydd wythnos ychwanegol 'yn wirfoddol' ar ddiwedd mis Gorffennaf (gwyliau ysgol arferol) a chael pythefnos o wyliau ym mis Hydref - neu beidio.
Mae Cyngor Sir Powys yn un o dri awdurdod lleol sydd wedi cytuno i fabwysiadu hyn.
A yw'r Awdurdod hwn wedi ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei gael ar addysg pobl ifanc?

Mae'r system "Dal i fyny" cyfredol, yn cynnwys pellter cymdeithasol yn cyfateb i bobl ifanc yn mynychu ysgol unwaith yr wythnos ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb am dair neu bedair wythnos.

Ni fydd ysgolion ar agor am y bedwaredd wythnos ar ddiwedd mis Gorffennaf gan Awdurdodau Lleol eraill sydd ddim wedi derbyn y system hon ond bydd eu hysgolion yn agored am wythnos lawn ym mis Hydref ar gyfer eu holl bobl ifanc: pedwar diwrnod ychwanegol o fynychu'r ysgol.
(Tudalennau 307 - 308)

18.3. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Sandra Davies**

Mae llawer o waith cynllunio a pharatoi ar waith ar hyn o bryd i alluogi ysgolion i agor ym mis Medi, er mwyn i bobl ifanc ddychwelyd i ysgolion.
Pa ddyddiad y bydd yr awdurdod hwn yn ailddechrau ei fusnes arferol a phryd bydd Swyddfeydd y Cyngor yn agor i aelodau'r cyhoedd?
(Tudalennau 309 - 310)

18.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Pa gamau y mae adran Priffyrdd Cyngor Sir Powys yn eu cymryd i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng ei gweithlu, staff dan gontract a gweithwyr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (N&MWTRA) o ran cynnal a chadw ffyrdd, cau ffyrdd ac ati er mwyn lleihau canlyniadau anfwriadol ar gymunedau lleol a'r cyhoedd sy'n teithio?
(I Ddilyn)

18.5. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar faterion yr Amgylchedd gan y Cynghorydd Sir William Powell**

Yng ngoleuni sylwadau cadarnhaol a wnaed yn ddiweddar gan Lee Waters AS, Dirprwy Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth am yr ymgyrch dros derfyn cyflymder o ‘20 yn Ddigon' ym mhob ardal drefol, pa ystyriaeth a roddwyd gan Gyngor Sir Powys i osod terfyn o 20mya gwirfoddol ar bob cerbyd y mae'n berchen arno, neu sy'n darparu ei wasanaethau, yn ein trefi a phentrefi?

Gan y byddai'r mesur hwn yn talu ar ei ganfed o ran diogelwch y cyhoedd a cherddwyr, prysurdeb adwerthu a'r sector lletygarwch a diogelu'r amgylchedd, a fydd yr Aelod Portffolio yn barod i ymrwymo i gomisiynu arolwg dichonoldeb, i'w adolygu gan gyfoedion y Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth?
(I Ddilyn)